# Gosod a thynnu harneisiau ceffylau, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gosod a thynnu harneisiau ceffylau, o dan oruchwyliaeth.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwyliwr.  Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy ddarparu cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
3. rhoi'r harneisiau ar y ceffyl yn gywir, o dan oruchwyliaeth
4. hysbysu'r goruchwylydd ynghylch unrhyw anawsterau
5. tynnu'r harneisiau ar ôl eu defnyddio, o dan oruchwyliaeth, a'u storio yn y man gofynnol, yn unol â chyfarwyddiadau
6. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. sut i osod a thynnu harneisiau ceffylau yn gywir
4. beth fydd yn digwydd os caiff yr harneisiau eu gosod yn anghywir
5. sut i ddiogelu'r ceffyl os oes angen ei adael pan fydd yn gwisgo harneisiau
6. y rhannau o'r ffrwynau a'r cyfrwy
7. diben esgidiau ymarfer uchel
8. y rhagofalon diogelwch i'w cymryd wrth osod a thynnu harneisiau
9. y mathau o anawsterau a allai ddigwydd a phwysigrwydd hysbysu'r goruchwylydd amdanynt
10. sut a ble i storio harneisiau
11. eich cyfrifoldebau chi yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid.

## Cwmpas/Ystod

Gosod a thynnu harneisiau:

- ffrwyn enfaog syml
- ffrwyn gyda band trwyn penwar
- esgidiau ymarfer uchel
- cyfrwy
- strap gwddf
- numnah

# Gosod a thynnu harneisiau ceffylau, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq101 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; harneisiau; esgidiau uchel; cyfrwy; ffrwyn enfaog; numnah; bandiau trwyn |